CIWB

**Tasg 1**

# Beth ydy'r broblem

Dyma ddiwedd y darn. Darllenwch y sgript mewn parau.

| | |
|---|---|
| Siân: | Beth am drio eto? |
| | |
| Siân: | Helo, Steve. |
| Steve: | O, helo, Siân. |
| Siân: | Helo, Steve. Bobl bach, beth wyt ti'n wisgo? |
| Steve: | Pyjamas … *Onesie*. |
| Siân: | Rwyt ti'n edrych fel zebra. |
| Steve: | Dw i'n gwisgo *onesie* zebra. |
| Siân: | Pam wyt ti'n gwisgo *onesie* zebra? |
| Steve: | Achos roeddwn i yn y gwely. |
| Siân: | Yn y gwely? |
| Steve: | Yn y gwely … a nawr dw i'n mynd i gael brecwast. |
| Siân: | Brecwast?! |
| Steve: | Dw i eisiau bwyd, felly, dw i'n mynd i gael brecwast. |
| Siân: | Od! Dw i'n mynd i gael cinio mewn deg munud. |
| Steve: | Pam wyt ti'n ffonio nawr? |
| Siân: | Wel, mae hi'n un o'r gloch y prynhawn. |
| Steve: | Un o'r gloch?! Nac ydy, mae hi'n bump o'r gloch – Y BORE!!! |
| Siân: | Ond …? |

Mae Siân yn dweud: Mae hi'n un o'r gloch y prynhawn.

Mae Steve yn dweud: Mae hi'n bump o'r gloch – Y BORE.

Sut mae hyn yn bosib? Ble mae Steve?